Ysgol Glan y Môr

Ffordd Caerdydd
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5NU
☎ 01758 701 244
pennaeth@glanymor.ysgoliongwynedd.cymru

Medi 2021

Annwyl Rieni,

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r llyfryn yma o wybodaeth i chi am Ysgol Glan y Môr. Mae'r ysgol yn ysgol naturiol ddwyieithog i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed ac yn gwasanaethu tref Pwllheli a'r ardal wledig o gwmpas.

Mae symud o'r ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn gam mawr i blentyn ac rwy'n siŵr bod llawer o gwestiynau yn mynd drwy'r meddwl. Yn y llyfryn hwn, rydym wedi ceisio ateb rhai o'r cwestiynau hyn a hefyd rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi am Ysgol Glan y Môr.

Mae'r holl wybodaeth sydd yma'n cyfeirio at sut mae pethau mewn blwyddyn arferol yn yr ysgol. Mae'n gyfnod ansicr o hyd, ac fe all ambell beth fod yn wahanol fis Medi. Gobeithio'n wir y bydd y sefyllfa'n haws yn y Gwanwyn ac y gallwn drefnu cyfle i'ch plentyn ddod i mewn i'n gweld ni ac i ddod i adnabod yr Ysgol.

Gobeithio y byddwch yn gweld y llyfryn hwn yn ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, byddwn yn falch o'r cyfle i'w trafod â chi.

Yn gywir

Guto Wyn

Guto Wyn
Pennaeth

Sut fydd fy mhlentyn yn cyrraedd yr ysgol?----3
Beth yw oriau'r ysgol? ----3
Sut mae'r plant yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn dosbarth ar gyfer Blwyddyn 7? ----3
Ai gallu cymysg sydd gennych ym Mlwyddyn 7 felly?----3
Beth fydd fy mhlentyn eu hangen ar gyfer y diwrnod cyntaf? ----4
Ble gallaf brynu y rhain? ----4
A fydd angen rhywbeth ar gyfer Mathemateg?----4
Beth yw trefniadau cinio? ----4
Beth yw polisi'r ysgol ynglŷn â chlustdlysau ac ati? ----5
Mae gan fy mhlentyn rai problemau dysgu; a fydd yn cael cymorth? ----5
Mae fy mhlentyn angen cymorth arbennig mewn un pwnc e.e. Mathemateg, ond mae'r pynciau eraill yn iawn.----5
Mae Datganiad ar fy mhlentyn ----5
Plant Mewn Gofal ---- 5
Pa bynciau fydd fy mhlentyn yn eu hastudio?----6
Sut y caf wybod sut mae fy mhlentyn yn gwneud? ----6
Ond beth pe byddai gennyf bryderon ar adeg arall? ----7
Pwy fydd yn cadw llygad ar ddatblygiad fy mhlentyn?----7
Datganiad Diogelwch ---- 7
Radicaliaeth ----8
Trefn i ymweld â'r ysgol ----8
Beth am ddatblygiad cymdeithasol a moesol?----8
Beth am Addysg Rhyw?----8
Fel y bydd fy mhlentyn yn tyfu, a fydd yn astudio pynciau gwahanol? ----9
A ydi pawb yn sefyll arholiad? ----9
Sut y caiff fy mhlentyn ddysgu am Fyd Gwaith a chael arweiniad gyrfaol? ----9
A oes bwlio yn yr ysgol? ---- 10
Beth yw trefn disgyblaeth yr ysgol? ---- 10
Mae fy mhlentyn yn derbyn gwersi offerynnol. A fydd hyn yn parhau? ---- 11
Beth yw'r polisi o ran talu am bethau eraill?---- 11
Faint o Waith Cartref fydd gan fy mhlentyn? ---- 11
Beth os dywed fy mhlentyn nad oes ganddo byth Waith Cartref?---- 11
Beth allwn ni fel rhieni ei wneud i helpu'n plentyn?---- 11
Heblaw'r gwersi, beth arall sydd gan Ysgol Glan y Môr i'w gynnig i'm plentyn?---- 12
Pa chwaraeon mae'r ysgol yn ei gynnig? ---- 12
Os yw fy mhlentyn yn aros ar ôl ysgol ar gyfer unrhyw weithgaredd sut fydd yn gallu dod gartref? ---- 13
Cyhoeddi Lluniau a Deddf Data---- 13
Beth ddylai fy mhlentyn ei wneud os oes ganddo rywbeth gwerthfawr? ---- 13
Beth yw safbwynt yr ysgol am ffonau symudol? ---- 13
Beth fydd eisiau i mi ei wneud os bydd fy mhlentyn yn absennol? ---- 14
Mae gan fy mhlentyn broblem feddygol neu anabledd---- 14
Beth os bydd fy mhlentyn yn sâl yn ystod y dydd ac yntau yn yr ysgol?---- 14
Beth yw polisi iaith yr ysgol?---- 15
Cyfrwng dysgu'r pynciau eraill ---- 15
Tydi fy Nghymraeg i ddim digon da i mi allu helpu fy mhlentyn ---- 16
Beth yw polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol?---- 16
Beth yw polisi derbyn yr ysgol?---- 16
I ble'r aeth y disgyblion hynny a adawodd yr ysgol y llynedd?---- 17
Beth yw dyddiadau gwyliau ysgol y flwyddyn nesaf? ---- 17
Mae gen i gŏyn yn erbyn yr ysgol. Gyda phwy y dylwn ei thrafod? ---- 17
Cyfle Cyfartal---- 18
Dyma Nodau Cwricwlaidd yr ysgol- ---- 18
Cynnal cyfarfod gyda'r Corff Llywodraethu ----18
Patrwm presenoldeb yr Ysgol ---- 18
Staff yr Ysgol ---- 20
Llywodraethwyr yr Ysgol ---- 22
Canlyniadau'r Ysgol ---- 23
Canllawiau Disgyblu---- 26
Cytundeb Cartref Ysgol ----.--- 27

Sut fydd fy mhlentyn yn cyrraedd yr ysgol?

Os ydych yn byw ymhellach na thair milltir o'r ysgol ac o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol, fe fydd bws yn cludo'ch plant i'r ysgol yn rhad ac am ddim. Os ydych yn byw ychydig yn agosach e.e. Efailnewydd, Abererch yna mae bws yn cynnig cludiant rhad (60c ar hyn o bryd).

Caiff pob plentyn sydd â hawl i gludiant am ddim docyn arbennig a bydd eisiau ei ddangos i'r gyrrwr. Bydd yr un tocyn yn ddilys drwy amser y plentyn yn yr ysgol ac felly mae yn rhaid ei gadw yn ddiogel. Os caiff y tocyn ei golli, bydd yn rhaid talu £5 am un newydd.

Mae yn bwysig dros ben bod y plant yn ymddwyn yn dda ar y bws ysgol. Cosbir unrhyw un sy'n camymddwyn yn unol â pholisi'r Awdurdod ac mae posibilrwydd y cânt golli eu hawl i deithio ar y bws ysgol.

Beth yw oriau'r ysgol?

Mae'r dydd yn dechrau am 8-50 a.m., mae chwarter awr o egwyl rhwng 10:50 a 11:05 a.m. ac mae cinio rhwng 12:50 ac 1:35 p.m. Mae'r dydd yn gorffen am 3:15 p.m. Ni fydd yr ysgol yn gyfrifol am unrhyw ddisgybl fydd yn cyrraedd yr ysgol cyn 8.30 a.m., nac ychwaith ar ôl 3.30pm, oni bai eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ysgol.

Mae chwe gwers y dydd, pob un ohonynt yn 50 munud o hyd. Mae 25 awr o wersi mewn wythnos sy'n cydymffurfio ag argymhellion y Cynulliad. (Nid yw hyn yn cynnwys yr amser ar gyfer gweithgareddau dosbarth e.e. Gwasanaeth, cofrestru.)

Sut mae'r plant yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn dosbarth ar gyfer Blwyddyn 7?

Mae athrawon yr ysgol yn ymweld â phob ysgol gynradd er mwyn cyfarfod y plant a fydd yn dod atom. Maent yn dod i wybod pwy ydi ffrindiau'r plant a byddwn yn gwneud pob ymdrech i gadw ffrindiau gyda'i gilydd lle mae hynny'n briodol ac yn bosibl.

Weithiau rydym yn gweld nad ydi plentyn yn hapus mewn dosbarth ar ôl iddo/i ddechrau efo ni. Pan fyddwn yn gweld hyn, byddwn yn ystyried iddo/iddi gael symud i ddosbarth arall os yw hynny yn addas i'w anghenion addysgol.

Oes yna setio ym mlwyddyn 7?

Mewn rhai pynciau fe fydd y disgyblion yn cydweithio gyda disgyblion o allu tebyg. Rydym yn gwneud y penderfyniadau am y grwpiau dysgu ar sail llawer o wybodaeth, gan gynnwys barn yr ysgolion cynradd a pherfformiad y plant mewn tasgau a phrofion. Byddwn yn adolygu cyfansoddiad y setiau hyn yn rheolaidd ac yn symud plant yn ystod y flwyddyn fel bo'r angen.

Beth fydd fy mhlentyn eu hangen ar gyfer y diwrnod cyntaf?

Y peth pwysicaf yw'r wisg ysgol. Dyma ddisgrifiad ohoni-

Crys chwys gwyrdd gyda logo'r ysgol arno
Crys polo gwyn gyda logo'r ysgol arno
Trowsus Ysgol DU (DIM jîns denim du, jeggins, joggers na leggings)
Esgidiau du - unlliw heb 'logo' na marciau arnynt.
DIM "Boots"
Sanau DU
Sgert wyrdd i'r genethod – (Dewisol- rhwng hanner tymor yr Haf a hanner tymor yr Hydref)

Chwaraeon

Bechgyn

Crys chwaraeon gwyrdd golau
Trowsus cwta du ('shorts')
Sanau pêl droed du
Esgidiau ymarfer ac esgidiau pêl droed
Gwisg nofio – lliw tywyll, plaen

Genethod

Crys polo gwyrdd tywyll
Shorts du plaen
Esgidiau ymarfer ac esgidiau hoci (os dymunwch)
Gwisg nofio – lliw tywyll, plaen
Sanau pêl droed/hoci du
(Bydd yr adran Add. Gorfforol yn gwerthu crys chwys a/neu drowsus loncian.)

Mae yn bosibl cael cymorth ariannol ar gyfer prynu dillad ysgol; dylech gysylltu â'r Uned Budd-daliadau'r Cyngor ar 01758 704002 i drafod hyn.

Ble gallaf brynu y rhain?

Gallwch brynu crys chwys, crys polo a gwisg addysg gorfforol yma yn yr ysgol.

A fydd angen rhywbeth ar gyfer Mathemateg?

Bydd angen cyfrifiannell- ond arhoswch nes iddo/i gyrraedd yr ysgol. Bydd yr Adran Fathemateg yn eu gwerthu, ac fel yna, byddwn yn siŵr eich bod yn cael un addas nad yw'n rhy ddrud. Gallwch brynu pethau fel onglydd ymlaen llaw wrth gwrs.

Beth yw trefniadau cinio?

Mae disgwyl i blant aros ar dir yr ysgol yn ystod y cyfnod cinio. Rhaid i unrhyw blentyn sydd am adael tir yr ysgol gael caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny.

Mae ffreutur yn yr ysgol ble mae dewis o bedwar pryd cynnes gwahanol bob dydd. Gall y plant ddewis beth maen nhw eisiau o hyn neu mae byrbrydau a salad ar gael. Mae hefyd ddewis ar gyfer llysieuwyr bob dydd.
Mae pryd llawn yn costio £2.60 ar hyn o bryd ond, oherwydd y dewis agored, gall fod yn fwy neu'n llai na hyn. Mae'r ffreutur hefyd ar agor yn ystod egwyl y bore a gall y disgyblion brynu tost, cawl, paned neu ddiod yr adeg hynny.

Dydy'r ffreutur ddim yn derbyn arian. Rhaid agor cyfrif ar "school gateway" ac fe fydd eich plentyn yn talu drwy ôl bawd. Bydd mwy o fanylion am hyn yn y pecyn fyddwch yn ei dderbyn cyn i'ch plentyn drosglwyddo yma.

Mae croeso i blant ddod â brechdanau efo nhw os ydyn nhw'n dymuno hynny .

Mae gan rai plant yr hawl i dderbyn cinio am ddim. **PWYSIG!** Os ydych yn meddwl eich bod yn deilwng i hawlio cinio am ddim i'ch plentyn cysylltwch â'r Uned Budd-daliadau'r Cyngor ar 01286 682689.

Beth yw polisi'r ysgol ynglŷn â chlustdlysau ac ati?

Mae caniatâd i ddisgyblion wisgo **un** fodrwy fechan ac **un** gadwyn ac **un** pâr o glustdlysau bach (studs), **un** freichled yn unig. **Ni** chaniateir unrhyw fath arall o addurniad corfforol ('*body piercing*'). **Ni** chaniateir unrhyw liw neu steil gwallt afresymol a disgwylir i unrhyw golur gael ei gadw i'r isafswm.

Mae gan fy mhlentyn rai problemau dysgu; a fydd yn cael cymorth?

Rydym yn ymwybodol iawn bod gan rai plant anghenion dysgu ychwanegol a'u bod felly yn cael anhawster gyda rhai agweddau o'r gwaith. Mae gennym adran yn yr ysgol sydd yn rhoi cymorth arbennig i'r plant hyn.

Fe fydd ein cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ymweld â phob ysgol gynradd a bydd yn trafod anghenion unrhyw blant sydd ag anghenion arbennig. Byddwn wedi paratoi ar eu cyfer erbyn dechrau'r flwyddyn ac yn trefnu iddynt gael cymorth o fewn eu grwpiau dysgu.

Mae Llywodraethwyr yr ysgol wedi gofyn i un o'u plith i gymryd cyfrifoldeb arbennig yn ansawdd y gofal sy'n cael ei roi i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae fy mhlentyn angen cymorth arbennig mewn un pwnc e.e. Mathemateg, ond mae'r pynciau eraill yn iawn.

Byddwn yn ymdrechu i roi cymorth ychwanegol yn y wers ar gyfer y disgyblion sydd angen cynhaliaeth.

Mae Datganiad ar fy mhlentyn

Mae'r ysgol yn cydweithio yn agos â swyddogion y Cyngor Sir i ymateb i anghenion plant sydd ar Ddatganiad a sicrheir y byddant yn cael y cymorth ychwanegol angenrheidiol.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Addysg mae'r ysgol yn cadw Cofrestr o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
(Os ydych yn dymuno gweld copi llawn o bolisi'r ysgol ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylech gysylltu â'r Ysgol.)

Plant mewn Gofal

Bydd Cyd-Gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn cadw golwg ar gynnydd pob plentyn mewn gofal ac yn mynd i gyfarfodydd amlasiantaethol yn ôl y gofyn.

Pa bynciau fydd fy mhlentyn yn eu hastudio?

Dyma restr o'r pynciau y byddant yn eu hastudio ym Mlwyddyn 7 a'r nifer o wersi maen nhw'n ei gael ym mhob pwnc:-

Cymraeg	*(4 gwers)*	Saesneg	*(4 gwers)*
Mathemateg	*(5 gwers)*	Ffrangeg	*(2 gwers)*
Gwyddoniaeth	*(3 gwers)*	Technoleg	*(2 gwers)*
Celf	*(1 gwers)*	Cerdd	*(1 gwers)*
Addysg Gorfforol	*(2 gwers)*	Dyniaethau	*(3 gwers)*
Iechyd a Lles	*(1 gwers)*	*Drama*	*(1 gwers)*
Technoleg Gwybodaeth *(1 gwers)*			

Sut y caf wybod sut mae fy mhlentyn yn gwneud?

Rydym yn cadw golwg gyson ar gynnydd y plant ac yn adrodd wrth rieni yn rheolaidd. Mae amrywiaeth o ddulliau yn cael eu defnyddio i sicrhau fod cysylltiad clos yn datblygu rhwng yr ysgol a'r rhieni a gwnawn yn siŵr bod cyfleoedd i chi drafod datblygiad eich plentyn efo ni.

Wrth i'r cwricwlwm newydd, y Cwricwlwm i Gymru, gael ei addysgu, mae pwyslais ar gamau cynnydd y plentyn, gan dderbyn bod plant yn gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol, ar adegau gwahanol. Mae pwyslais hefyd ar lais y plentyn yn ei ddysgu ei hun, yn ogystal â chefnogaeth cyd-ddisgyblion yn y dosbarth. Mae hyn yn golygu felly bod angen i'r plentyn ystyried safon ei (g)waith ei hun, yn ogystal â'r arweiniad gan athro. Bydd yr athrawon yn gwneud sylwadau ar waith plentyn yn ogystal. Fel rhieni gallwch chithau gymryd diddordeb yng ngwaith eich plentyn ac yn edrych trwy ei l(l)yfrau yn rheolaidd gan sicrhau ei f(b)od yn ymateb i sylwadau a thargedau ei hun, a sylwadau'r athro.

Mae pob blwyddyn yn cael 'adroddiad interim' fesul tymor . Mae hon yn adroddiad sydd yn crynhoi cyrhaeddiad ac ymdrech y disgybl ym mhob pwnc a'u hagwedd at ddysgu.

Mae pob disgybl yn cael o leiaf un cyfnod o arholiadau ffurfiol bob blwyddyn. Rydym yn gwneud hyn er mwyn paratoi'n disgyblion ar gyfer arholiadau allanol y TGAU . Bydd Blw-7 ac 8 yn cael arholiadau diwedd Tymor yr Haf, Blw-11 cyn y Nadolig, Blw-10 cyn y Pasg a Blw-9 ym mis Mai. Bydd adroddiad llawn ar gyrhaeddiad ac ymdrech ym mhob pwnc yn cael ei anfon gartref yn dilyn y cyfnod arholiadau.

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn cynnal Cyfarfod Rhieni ble cewch drafod gwaith eich plentyn gyda'i holl athrawon. Mae'r rhain yn digwydd ar ddydd Mawrth (rhwng 3:45 a 5:45) a chewch wybod amdanynt yng nghalendr yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn rhithiol, drwy'r system 'School Cloud'.

Ond beth pe byddai gennyf bryderon ar adeg arall?

Byddem yn barod iawn i chi gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod cynnydd eich plentyn neu unrhyw fater arall. Dylid gwneud hyn drwy ffonio'r Pennaeth (gweler blaen y llyfryn hwn am y rhif ffôn).

Gallwn hefyd gynnig cyfle i chi dderbyn adroddiad ysgrifenedig dros dro neu gyfle i chi drafod cynnydd gydag athrawon penodol os oes gennych bryderon ar unrhyw adeg.

Pwy fydd yn cadw llygad ar ddatblygiad fy mhlentyn?

Bydd pob un o'r athrawon yn cadw llygad ar hyn yn ei faes ei hun. Mae gan bob dosbarth Athro Dosbarth sydd hefyd yn cadw golwg gyffredinol ar ddatblygiad y plant sy'n eu gofal. Os bydd athro yn pryderu am ddatblygiad disgybl bydd yn trafod gyda'r Pennaeth Blwyddyn yn y lle cyntaf. Yn yr un modd, caiff y Pennaeth Blwyddyn wybod os yw athro'n teimlo bod plentyn yn dangos cynnydd arwyddocaol.

Pan aiff eich plentyn ymlaen drwy'r ysgol, daw athrawon eraill i fod yn gyfrifol amdano/i. Mae gennym dîm o Benaethiaid Cynnydd sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion penodol.

Miss Hayley Platt	Pennaeth Blwyddyn 7
Mrs Sioned M Parry	Pennaeth Blwyddyn 8
Mr Iwan W Williams	Pennaeth Blwyddyn 9
Miss Lisa Mai Hughes	Pennaeth Blwyddyn 10
Mrs Andrea Roberts	Pennaeth Blwyddyn 11

Datganiad Diogelu

Mae gennym ddyletswydd bugeiliol tuag at ein disgyblion, ac mae gennym ddyletswydd i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc. Gosodwyd cyfrifoldeb sylweddol iawn arnom dan Ddeddf Plant 2004 - cyfrifoldeb penodol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a chwarae rhan allweddol wrth eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae dyletswydd arnom i roi'r flaenoriaeth uchaf i'r plant sydd â mwyaf o angen a diffinnir "plant mewn angen" fel rhai gydag ADY, problemau gartref, mewn gofal, mewn perygl o gael eu gwahardd ac ati.

Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio

Mae cyfrifoldeb gennym i fabwysiadau a gyhoeddir gan y llywodraeth ar gyfer atal, rhwystro a diogelu plant rhag radicaliaeth ac eithafiaeth. Yn ogystal â bod yn effro i'r arwyddion a symptomau o radicaleiddio ac eithafiaeth, rhan annatod o ddiogelu yw'r elfen dysgu fel rhan o strategaeth flaengar. Yn yr ysgol rydym yn darparu profiadau dysgu a chodi ymwybyddiaeth ein dysgwyr drwy wersi

arbenigol PC Dewi Owen, gwersi ABCh a hefyd drwy weithgareddau “Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth”. Mae Deddf Gwrth - derfysgaeth a Diogelwch 2015 yn nodi’r angen i roi ystyriaeth ddyledus i’r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu at derfysgaeth. Gellir gweld copi o Bolisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio drwy gysylltu â’r ysgol.

E-ddiogelwch

Mae staff yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau:

- Unrhyw gamddefnydd neu broblem yn cael ei gyfeirio at y Pennaeth/Dirprwy/ Pennaeth Blwyddyn er mwyn ymchwilio’r mater a gweithredu yn ôl yr angen.
- Bod unrhyw gyfathrebu digidol gyda disgyblion/rhieni/gofalwyr yn cael ei wneud ar lefel broffesiynol
- Bod agweddau o e-ddioglewch yn cael eu hymgorffori i holl agweddau o’r cwricwlwm
- Bydd disgyblion yn deall ac yn dilyn cytundebau/polisïau e-ddioglewch
- Monitro defnydd o dechnoleg ddigidol, dyfeisiadau symudol, camerâu ayb mewn gwersi a gweithgareddau eraill a gweithredu’r polisi sy’n ymwneud a’r dyfeisiau yma.

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Mi fydd gan rieni/gofalwyr fynediad at lwyfan dysgu ysgol ble gellir postio neu gynnig sylwadau, caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu ynghylch defnydd derbyniol. Caiff rhieni/gofalwyr eu hannog i roi sylwadau neu anfon negeseuon priodol ynghylch yr ysgol. Os gwneir sylwadau sarhaus neu amhriodol, bydd aelod o’r UDRh yn gofyn i’r rhiant/gofalwr ddileu’r neges a’u gwahodd i drafod y materion wyneb yn wyneb. Os oes angen, caiff rhieni eu cyfeirio at weithdrefnau’r ysgol ar leisio cwynion.

Trefnu i Ymweld â’r Ysgol

Os hoffech ymweld â’r ysgol i drafod unrhyw agwedd ar waith yr ysgol gofynnir i chi ffonio’r ysgol i wneud apwyntiad i weld y Pennaeth. Rhif ffôn : 01758 - 701244

Beth am ddatblygiad cymdeithasol a moesol?

Mae'r holl ysgol yn dechrau pob dydd gydag elfen o gyd addoli. Os yw rhieni yn dymuno eithrio eu plentyn o hyn, dylid cysylltu â'r ysgol.
Mae Addysg Grefyddol yn cael ei addysgu, sydd yn canolbwyntio ar agweddau aml-grefyddol a moesol, i holl blant yr ysgol. Gwneir hyn fel pwnc gorfodol, ym Mlynyddoedd 7 i 11 a thrwy bwnc TGAU dewisol.
Mae'r plant hefyd yn cael arweiniad am Addysg Foesol ac Addysg Iechyd yn y gwersi Addysg Bersonol.

Beth am Addysg Rhyw a Pherthnasoedd?

Cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhannol drwy'r pynciau a hefyd drwy fodiwlau penodol sydd yn rhan o’r gwersi Iechyd a Lles. Mae sylw priodol

yn cael ei roi i drafodaethau moesol wrth drafod Addysg Rhyw. Byddwn yn sicrhau fod yr ymdriniaeth yn addas i oedran y plant a byddwn yn aml yn cael cymorth gan swyddogion o'r Gwasanaeth Iechyd.

Fel y bydd fy mhlentyn yn tyfu, a fydd yn astudio pynciau gwahanol?

Bydd yn astudio'r un pynciau ym Mlwyddyn 8 a Blwyddyn 9 ac a wnaeth ym Mlwyddyn 7 ond bydd y trefniadau "setio" yn newid rhyw gymaint. Ym Mlwyddyn 10, mae'r disgyblion yn dechrau astudio ar gyfer arholiadau allanol. Rydym yn cynnig cymwysterau TGAU/BTEC/Agored a hefyd Tystysgrif Llwybrau Mynediad. Gall plentyn sefyll cymysgedd o'r TGAU/BTEC/AGORED/ LLM.

Ym Mlwyddyn 10 ac 11, bydd pawb yn astudio'r pynciau craidd-

Cymraeg	(*4 cyfnod)*	Saesneg	*(4 cyfnod)*
Mathemateg	(*5 cyfnod)*	Gwyddoniaeth	*(6 cyfnod)*
Addysg Gorfforol	(*1 cyfnod)*	BAC	*(1 cyfnod)*

Cyflwynir y Fagloriaeth Gymreig i bob disgybl ym mlwyddyn 10 ac 11.

Mae "setio" mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Ceir tri grŵp dewisol ac mae'r disgybl yn dewis un pwnc o bob grŵp. Y patrwm ar gyfer 2021-22 ydi

Hanes	Cerdd	Addysg Gorfforol
Addysg Gorfforol	Daearyddiaeth	BTEC Busnes
Celf	Arlwyo	Sgiliau Gwiath
Electroneg	Sgiliau gwaith	Ffrangeg
Arlwyaeth	Technoleg	Dysgu Awyr Agored
TGCh	BTEC Tir ac Amgylchedd	Addysg Grefyddol
	BTEC Peirianneg Môr	
	BTEC Cyfryngau	

A ydi pawb yn sefyll arholiad?

Polisi'r ysgol yw y dylai pawb sefyll arholiad os oes unrhyw obaith i basio'r arholiad honno. Ble fod anghytundeb ynglŷn â hyn neu ynglŷn â'r dewis o ba lefel arholiad y mae'r disgybl i'w sefyll, bydd yr ysgol yn egluro'i safbwynt yn ofalus ond yn y pen draw, mae dymuniad y rhieni yn cael ei barchu. Mewn **rhai** achosion fe fydd yr ysgol yn gofyn i rieni dalu'r ffi arholiad os yw'r disgybl yn ail sefyll arholiad a hynny yn groes i gyngor yr ysgol.

Sut y caiff fy mhlentyn ddysgu am Fyd Gwaith a chael arweiniad gyrfaol?

Nod y rhaglen Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaol (AChG) yw helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau, agweddau a medrau fydd yn eu galluogi i ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi a sefyllfaoedd fel oedolion. Rydym yn manteisio ar bob

cyfle sydd yn codi o fewn gwersi a chyfnodau tiwtorial i gyfeirio at Fyd Gwaith a dealltwriaeth economaidd.

O Flwyddyn 9 ymlaen, rhoddir mwy o sylw i hyn a daw AChG yn rhan o'r pecyn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol i bob disgybl. Fel rhan o'r gwersi yma caiff y disgyblion gyfle i ddod i adnabod a dysgu defnyddio'r Llyfrgell Yrfaoedd ac i wefan Gyrfa Cymru. Ar y wefan honno gallant lunio CV ar-lein.
Ym Mlwyddyn 10 bydd pob disgybl yn treulio cyfnod o bum niwrnod ar Brofiad Gwaith. Yn ogystal bydd disgyblion sydd yn dilyn cwricwlwm amgen yn mynychu profiad gwaith estynedig.
Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru (cwmni annibynnol sy'n arbenigo mewn rhoi cyngor ac arweiniad am yrfaoedd) yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol ac yn cyfweld y disgyblion hynaf. Byddant hefyd yn cynnal gweithgareddau efo grwpiau o ddisgyblion o Flwyddyn 8 ymlaen. Bydd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd rhieni Blw-9 i 11.
Gall disgyblion a/neu rieni drefnu cyfweliad gydag un o'r swyddogion hyn, naill ai drwy gysylltu a Mrs Jacqui Parry neu drwy ffonio swyddfa Gyrfa Cymru yn uniongyrchol (☎ 0800 0284 844).

A oes bwlio yn yr ysgol?

Nid yw bwlio yn broblem fawr yn yr ysgol ond nid ydym yn cymryd hynny'n ganiataol. Gall bwlio fod yn gorfforol neu yn eiriol ac mae yn bwysig iawn fod pawb yn yr ysgol yn deall fod bwlio yn hollol annerbyniol.

Os yw plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei fwlio, dylid dod â hynny i sylw'r athro dosbarth, neu unrhyw athro arall, ar unwaith fel y gellir ymateb i'r sefyllfa.

Dim ond wrth i bawb gydweithio fel hyn, y bydd bwlio yn parhau i beidio â bod yn broblem fawr yn Ysgol Glan y Môr.

Beth yw trefn disgyblaeth yr ysgol?

Os yw ysgol am weithredu er lles yr holl ddisgyblion rhaid wrth drefn glir o ddisgyblaeth a rheolau dealladwy a phendant. Mae gan ddisgyblaeth gan eraill le ym mhob cymdeithas ond yn bwysicach na dim yw meithrin *hunan* ddisgyblaeth. Wrth greu awyrgylch ble y mae pawb yn cael eu parchu a ble mae cwrteisi tuag at eraill yn amlwg, mae'r ysgol yn hybu safon uchel o ymddygiad.

Ni fydd unrhyw un yn cael eu cadw ar ôl oriau ysgol heb i rieni gael gwybod am hynny *ddiwrnod* ymlaen llaw.

Dibynnwn ar gael cefnogaeth rhieni i'r ddisgyblaeth deg a geir yn yr ysgol.
Yn dilyn trosedd ddifrifol, y mae gan y Pennaeth yr hawl i wahardd disgybl am nifer penodol o ddyddiau neu mewn achosion difrifol iawn i ddiarddel yn barhaol. Mae gan y rhieni'r hawl i apelio yn erbyn hyn gerbron y Llywodraethwyr. Mae canllawiau disgyblaeth yr ysgol yng nghefn y llyfryn hwn.

Mae fy mhlentyn yn derbyn gwersi offerynnol. A fydd hyn yn parhau?

Bydd. Cânt yr un ddarpariaeth ag oedd yn bodoli yn yr ysgol gynradd. Mae tiwtoriaid teithiol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Cawn wybod pwy sy'n cael gwersi gan yr ysgolion cynradd ond mae yn bosibl cychwyn y gwersi yn yr ysgol uwchradd am y tro cyntaf. Bydd angen gwneud cyfraniad tuag at gostau'r gwersi hyn.

Beth yw'r polisi o ran talu am bethau eraill?

Polisi'r ysgol (yn fras) yw y byddwn **yn codi tâl** am-

- ddifrod sy'n deillio o gamymddygiad disgybl;
- deunydd crai ar gyfer pynciau fel Technoleg/Celf/Arlwyo
- ffioedd arholiad ble na pharatowyd y disgybl ar gyfer yr arholiad gan yr ysgol;
- ffioedd arholiad ble bu i'r disgybl, heb reswm digonol, fethu a chwblhau'r cwrs; neu ffioedd arholiad os yw'r disgybl yn gwneud cais i ail sefyll arholiad.
- pob gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, oni bai eu bod yn angenrheidiol;
- costau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol;
- costau cludiant o'r cartref i leoliad Profiad Gwaith.

Bydd yr ysgol yn gofyn am gyfraniad gwirfoddol gan rieni, er mwyn sicrhau bod rhai gweithgareddau yn gallu digwydd e.e. Yr Wythnos Weithgareddau yn yr Haf. Ni fydd unrhyw ddisgybl yn methu â manteisio ar weithgareddau o'r fath oherwydd anallu i dalu.

Faint o Waith Cartref fydd gan fy mhlentyn?

Rydym yn credu fod Gwaith Cartref yn bwysig oherwydd ei fod yn rhoi cyfle-

- i ymarfer pethau a ddysgwyd yn y dosbarth;
- i ymestyn ein disgyblion;
- i rieni weld beth y mae eu plant yn ei wneud yn y dosbarth;
- i baratoi plant ar gyfer anghenion Gwaith Cwrs sydd yn rhan o'r TGAU.

Er mwyn cryfhau'r cyfathrebu sydd rhyngo fel ysgol a chithau fel rhieni, rydym yn defnyddio'r system 'Class Charts'. Gallwch chi fel rhieni lawr lwytho'r ap i'ch ffôn, a chadw golwg ar ba waith cartref sydd gan eich plentyn.

Beth os dywed fy mhlentyn nad oes ganddo byth Waith Cartref?

Cysylltwch â'r ysgol ar unwaith i ni gael edrych ar y sefyllfa!

Beth allwn ni fel rhieni ei wneud i helpu'n plentyn?

Rydym yn credu'n gryf mai partneriaeth yw addysg- rhwng y disgybl, yr ysgol a'r rhieni. Mae gan bob un ei gyfraniad ei hun i'w wneud.

Gallwch gymryd diddordeb yng ngwaith eich plentyn drwy ofyn sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol a chymryd diddordeb mewn Gwaith Cartref.

Manteisiwch ar gyfarfodydd rhieni a chysylltwch â ni ar unwaith os oes rhywbeth sy'n eich poeni neu rywbeth y teimlwch y dylem ni ei wybod.

Heblaw'r gwersi, beth arall sydd gan Ysgol Glan y Môr i'w gynnig i'm plentyn?

Mae plant yn elwa yn arw o weithgareddau sydd yn digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac y mae bron pob adran yn trefnu rhywbeth i gyfoethogi eu gwersi.

Cynhelir amrywiol glybiau yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol e.e. Gwobr Dug Caeredin, Gwyddbwyll, ClwbTrobwynt, Clwb Codio, Clwb Drama, Yr Urdd, Clwb Eco, Clwb F1, Côr yr ysgol, Clwb Japaneaidd, TG, Llyfrgell a Chwaraeon amrywiol o dan faner 5x60 a dan ofal yr adran Addysg Gorfforol.

Mae'r adrannau Cymraeg a Saesneg yn trefnu ymweliadau â theatrau- ym Mhwllheli a Llandudno ond hefyd mewn llefydd fel Llundain, Lerpwl a Manceinion. Mae beirdd ac awduron hefyd yn dod i mewn i siarad â phlant. Mae yma lyfrgell helaeth sydd ar gael i'r plant fenthyg llyfrau. Mae llawer o anogaeth i ddarllen. Trefnir 'Readathon' flynyddol a chesglir llawer iawn o arian i tuag at elusennau.

Mae traddodiad eisteddfodol cryf yma ac anogir plant i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd ac yn yr eisteddfodau lleol. Maent yn aml yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae Eisteddfod yr ysgol yn un o uchafbwyntiau'r calendr ysgol. Y mae rhai o'n disgyblion yn chwarae gyda cherddorfa ar lefel sirol.
Mae llawer iawn o weithgareddau yn digwydd ar gaeau'r ysgol ac yn y gampfa yn ystod yr amser cinio ac ar ôl oriau'r ysgol. Dros y blynyddoedd, mae timau ac unigolion o'r ysgol wedi gwneud yn arbennig o dda mewn chwaraeon- ar raddfa leol, sirol a chenedlaethol

Mewn blwyddyn, fe drefnir llawer o ymweliadau addysgol i gyfoethogi'r dysgu mewn gwahanol feysydd.

Pa chwaraeon mae'r ysgol yn ei gynnig?

Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn cynnig pob math o weithgareddau ac yn cynnig profiadau eang i'r disgyblion i'w hannog i ymwneud â chwaraeon - boed hynny fel rhai sy'n cymryd rhan, yn dyfarnu neu yn gwylio. Cynigir yr holl gemau tîm traddodiadol yn ogystal â gweithgareddau megis athletau. Y mae'r ysgol hefyd yn manteisio yn llawn ar adnoddau Canolfan Hamdden Dwyfor- ble y cynigiwn nofio a llawer mwy.

Dros y blynyddoedd, mae disgyblion yr ysgol wedi cynrychioli'r Sir a Chymru mewn nifer o chwaraeon.

Mae'r swyddog 5x60 yn cynnig nifer o brofiadau amrywiol, allgyrsiol i'r disgyblion ym maes chwaraeon.

Os yw fy mhlentyn yn aros ar ôl ysgol ar gyfer unrhyw weithgaredd sut fydd yn gallu dod gartref?

Mae gan swyddfa'r ysgol docynnau bws arbennig. Rhoddir tocyn arbennig **i rai â thocyn teithio yn unig** er mwyn eu galluogi i ddefnyddio bws gwasanaeth heb orfod talu wedi'r oriau arferol os ydynt wedi aros yn yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.

Cyhoeddi Lluniau a Deddf Data

Gyda'r holl amrywiol weithgareddau sy'n digwydd yn yr ysgol, fe fyddwn, o bryd i'w gilydd, yn tynnu lluniau'r plant. Mae'n bosib y bydd y lluniau hyn yn cael eu defnyddio i bwrpas hysbysebu gweithgareddau'r ysgol neu'r Cyngor Sir. Gall lluniau ymddangos ar goridorau'r ysgol, mewn papurau newydd neu ar wefan yr ysgol. O ganlyniad i newidiadau i Ddeddf Diogelu Data 2018, mae bellach yn ofynnol i rieni am ganiatâd i dynnu lluniau. Felly, fydd pob disgybl a fydd yn trosglwyddo neu'n ymuno a'r ysgol yn derbyn ffurflen i'w gwblhau. Mae'r hawl i dynnu lluniau a'u defnyddio yn parhau am 5 mlynedd os na dderbynnir llythyr yn tynnu'r hawl yn ôl.

Mae'r ysgol yn cadw data personol am ddisgyblion ac wedi cofrestru hynny gyda'r Cofrestrydd Data. Mae yma system deledu cylch-cyfyng sydd yn cael ei recordio a'i defnyddio i bwrpas diogelwch.

Gellir gweld datganiad preifatrwydd yr ysgol ar safle we'r ysgol, sef:

www.ysgolglanymor.cymru

Beth ddylai fy mhlentyn ei wneud os oes ganddo rywbeth gwerthfawr?

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu eiddo plant. Dylid fodd bynnag cofio rhai rheolau sylfaenol-

- dylid rhoi enw ar bob eiddo e.e. côt, cyfrifiannell;
- ni ddylid dod ag offer gwerthfawr i'r ysgol
- dylid rhoi eiddo gwerthfawr e.e. gemwaith/arian i'r athro yn ystod gwersi Addysg Gorfforol;
- ni ddylid cario symiau mawr o arian o gwmpas yr ysgol- os oes gan ddisgybl swm sylweddol o arian, dylid ei roi i'r Swyddfa i'w gadw ar ddechrau'r diwrnod.

Ni all yr ysgol eich digolledu am unrhyw eiddo sy'n mynd ar goll, felly y mae yn bwysig iawn cadw at y rheolau hyn. Tra'n nodi'r pethau hyn, bydd yr ysgol yn gwneud pob dim sy'n rhesymol i gynorthwyo disgybl sydd wedi colli eiddo i ddod o hyd iddo.

Beth yw safbwynt yr ysgol am ffonau symudol?

Mae ffonau symudol yn werthfawr. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ffôn a gollir neu a ddifrodir. Os yw disgybl yn dod â ffôn i'r ysgol, *rhaid* ei diffodd

a'i gadw yng waelod ei fag yn ystod oriau ysgol. Os bydd ffôn yn tarfu ar wersi, bydd yr athro yn rhoi'r ffôn mewn dan ofal staff y brif swyddfa tan ddiwedd y dydd. Os yw camddefnydd o'r ffôn yn broblem barhaus gydag unrhyw unigolyn, bydd yr ysgol yn cadw'r ffôn a gofyn i riant ddod i'w gasglu.

Nid yw ffonau symudol nag unrhyw offer arall i'w defnyddio i dynnu lluniau neu fideos yn yr ysgol nac i recordio sain.

Beth fydd eisiau i mi ei wneud os bydd fy mhlentyn yn absennol?

Rhoddwn bwyslais mawr ar gael eglurhad am bob absenoldeb. Mae hyn yn ein cynorthwyo i rwystro triwantiaeth. Gofynnwn i chi ffonio'r ysgol yn fuan ar fore cyntaf unrhyw absenoldeb i egluro'r sefyllfa. Bydd angen llythyr ar gyfer absenoldeb yn ystod y dydd e.e. apwyntiad gyda'r deintydd. Gydag absenoldeb tymor hir neu absenoldeb o arholiad allanol, byddwn eisiau tystysgrif feddygol.

Ni chymeradwyir i deuluoedd drefnu gwyliau yn ystod y tymor, yn enwedig os yw'r disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11. Os ydych yn dymuno gwneud cais i dynnu eich plentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol dylech gysylltu â'r ysgol i gael apwyntiad i drafod hyn gyda'r Pennaeth.

Mae gan fy mhlentyn broblem feddygol neu anabledd

Bydd yn bwysig iawn i chi roi gwybod i'r ysgol os oes problem feddygol a allai effeithio ar eich plentyn tra bydd yn yr ysgol e.e. epilepsi, alergedd, asthma.

Os bydd angen i'ch plentyn gymryd unrhyw ffisig/tabledi yn ystod y dydd, bydd angen rhoi gwybod i ni drwy lythyr.

Gwnaiff yr ysgol bob dim sy'n ymarferol bosibl i ymateb i anawsterau disgyblion sydd ag anabledd; gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr holl gwricwlwm ar gael i'r disgyblion hyn ynghyd â'r un cyfleodd â phob disgybl arall.

Mae adeilad yr ysgol wedi ei addasu i wneud pethau yn rhwyddach i ddisgyblion ag anableddau. Yn y gorffennol, fe lwyddwyd i dderbyn disgyblion gyda sbectrwm eang o anableddau. Os oes gan eich plentyn anabledd sylweddol, dylid cysylltu â'r ysgol i drafod cyn gynted â phosib.

Beth os bydd fy mhlentyn yn sâl yn ystod y dydd ac yntau yn yr ysgol?

Mae gennym ystafell feddygol ble y gall claf fynd am ychydig (gyda rhywun yn ei arolygu) ond os gwelwn y byddai yn well iddo fod gartref, byddwn yn eich ffonio i weld os gellir gwneud trefniadau i'w gael gartref. Er mwyn gallu gwneud hyn mae cael rhif ffôn cyswllt yn hynod bwysig.

Ni fyddwn byth yn caniatáu i blentyn fynd gartref oni bai ein bod yn gwybod fod rhywun yno i'w dderbyn.

Mewn argyfwng, cysylltwn â'r meddyg teulu neu fe wnawn alw ar ambiwlans. Os gwneir hyn, rhoddir gwybod i rieni wrth gwrs.

Cofnodir gwybodaeth am ddamweiniau a hysbysir y Cyngor Sir a'r asiantaeth Iechyd a Diogelwch am ddigwyddiadau perthnasol.

Beth yw polisi iaith yr ysgol?

Ein nod yw sicrhau bod ein disgyblion yn gadael yr ysgol yn rhugl ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y mae'r ysgol yn rhan ohoni.

Ethos Gymreig sydd i'r ysgol a'r Gymraeg yw ein hiaith cyfathrebu a'n iaith weinyddol. Y mae y rhan fwyaf o weithgareddau'r ysgol, megis y gwasanaethau boreol, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymraeg yw iaith y cyfnodau tiwtorial ond bydd disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid yn mynd i ddosbarth cofrestru arbennig ble y bydd yr athrawon yn cyfieithu ar eu cyfer. Byddwn yn trefnu i ddisgyblion CA3(Blwyddyn 7-9) fynd i'r uned iaith leol ar gwrs dwys i ddysgu'r Gymraeg. Byddwn yn annog yr hwyrddyfodiaid i wneud mwy a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cyfnodau tiwtorial hyn wrth i safon eu Cymraeg wella.

Yn unol â Pholisi Iaith y Sir y mae holl ddisgyblion yr ysgol yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau craidd hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae pawb, oni bai am yr hwyrddyfodiaid (sy'n cyrraedd yn ystod blynyddoedd 7-9), a disgyblion Ail Iaith sy'n trosglwyddo o'r cynradd ar Lefel 1 neu 2 yn y Gymraeg yn ei hastudio fel mamiaith ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol Iaith Gyntaf. (categori 2A - Llywodraeth Cynulliad Cymru)
Y mae'r mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn perthyn i un o'r carfanau isod:

Carfan A: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Carfan B: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Gymraeg ond bod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.
Carfan C1: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Saesneg ond bod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.
Carfan C2: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Saesneg ond bod eu Cymraeg yn wan iawn.

Cyfrwng dysgu'r pynciau eraill

CA3
Bydd disgyblion yr holl garfanau, ac eithrio'r unigolion sy'n perthyn i Garfan C2, yn cwblhau eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc. Er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion ac ymateb i anghenion gwahanol garfanau gwneir y canlynol :

- Bydd termau / rhai termau pynciol yn cael eu harddangos a'u dysgu'n ddwyieithog.
- Bydd disgyblion C1 yn cwblhau gymaint o'u gwaith drwy'r Gymraeg ag y mae disgyblion carfanau A + B. Os gofynnant, bydd y disgyblion yn

derbyn copi dwyieithog / copi Saesneg o ambell gwestiwn / nodiadau / papur prawf er mwyn gallu croesgyfeirio neu gael cymorth ychwanegol gan rieni gartref.

- Er mwyn sicrhau dwyieithrwydd pob disgybl, cynllunnir defnydd bwriadus o'r Saesneg mewn pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. erthyglau, fideo, DVD, gwefannau, rhaglenni cyfrifiadurol. Mae hyn hefyd yn rhoicyfle i ddisgyblion arfer eu sgiliau trawsieithu.
- Wedi i ddisgyblion Carfan C2 fod yn y Ganolfan Iaith bydd targed(au) tymor byr yn cael eu gosod i'r disgyblion gan y Cyd-gysylltydd Ail Iaith. Gofynnir i rai athrawon / pynciau greu cyfleoedd penodol i'r disgyblion hyn gael cwblhau tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny gael cyfle i gyrraedd eu targed(au.) Bydd yr union dargedau a'r union bynciau a ddewisir yn dibynnu ar gyraeddiadau ieithyddol disgyblion unigol.

CA4

Ein nod yw sicrhau dilyniant i'r hyn sy'n digwydd yn ystod CA3 a pharhau i hyrwyddo hyfedredd oed-berthnasol yn y ddwy iaith. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng astudiaeth yn CA4. Byddwn yn sicrhau dealltwriaeth o dermau pynciol yn ddwyieithog ac yn sicrhau fod papurau arholiad cyfrwng saesneg ar gael i ddisgyblion. Bydd y Cyd-gysylltydd Iaith yn trafod iaith y pynciau dewisol gyda'r disgyblion lle bo'r angen er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol priodol.

Dydy fy Nghymraeg i ddim digon da i mi allu helpu fy mhlentyn

Mae gennym daflenni gwaith dwyieithog, ac yn aml, werslyfrau cyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae croeso i rieni gael benthyg y rhain fel y gallant helpu.

Beth yw polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol?

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r Polisi Iechyd a Diogelwch a argymhellwyd gan yr Awdurdod Addysg. Mae iechyd a diogelwch ein plant a'n staff yn hollbwysig i ni a gweithredwn ar yr argymhellion a gynigir ar gyfer gweithio mewn gweithdai a labordai ac wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a theithiau addysgol. O gysylltu â'r ysgol gellir gweld y ddogfen bolisi. Un agwedd o'r polisi yw y dylai pob ymwelydd â'r ysgol alw yn swyddfa'r ysgol wrth gyrraedd.

Beth yw polisi derbyn yr ysgol?

Mae disgwyl i rieni roi gwybod i'r Cyngor Sir o'u dewis o ysgol ar gyfer eu plant yn y mis Tachwedd, pan fydd y plant ym Mlwyddyn 6. Yn arferol, dim ond yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn un-ar-ddeg oed y derbynnir plant i'r ysgol. Cyngor Gwynedd yw'r 'awdurdod derbyn' ar gyfer yr ysgol a drwyddynt hwy y gweithredir y drefn dderbyn; hwy hefyd sydd yn gweithredu unrhyw broses apêl. 'Rhif Mynediad Safonol' yr ysgol hon yw 136 ac fe dderbyniwyd 87 cais am le yn yr ysgol ar gyfer Medi 2021.

I ble'r aeth y disgyblion hynny a adawodd yr ysgol y llynedd?

Roedd 102 o ddisgyblion yn 15 oed ar Fedi'r 1af, 2020. O'r rhain, aeth 29 i astudio ar gyrsiau lefel A, 55 ymlaen i gyrsiau galwedigaethol, 6 i hyfforddiant, 4 yn gweithio, 3 wedi gadael yr ardal a 5 yn ddi waith.

Beth yw dyddiadau gwyliau ysgol y flwyddyn nesaf?

Tymor yr Hydref
Medi 2, 2022 → Rhagfyr 23, 2022
Tymor y Gwanwyn
Ionawr 9, 2023 → Mawrth 31, 2023
Tymor yr Haf
Ebrill 17, 2023 → Gorffennaf 20, 2023
Gwyliau eraill

Hanner tymor yr Hydref	Hydref 31 – 4 Tachwedd, 2022
Hanner tymor y Gwanwyn	Chwefror 20 - 24, 2023
Hanner tymor yr Haf	Mai 29 – Mehefin 2, 2023

Mae gen i gŵyn yn erbyn yr ysgol. Gyda phwy y dylwn ei thrafod?

Dylid ceisio trafod unrhyw fater gyda'r athro neu gyda'r Pennaeth. Dylid cyfeirio pob cŵyn yn y lle cyntaf at y Pennaeth; gellir gwneud hynny yn bersonol, drwy lythyr neu dros y ffôn. Bydd y Pennaeth yn edrych ar y sefyllfa a gallwch ddisgwyl ymateb ymhen tridiau ar yr hwyaf.

Os nad ydych yn fodlon â hyn, gallwch anfon eich cwyn yn uniongyrchol at Gadeirydd y Llywodraethwyr- d/o Miss Anwen Bumby, Clerc i'r Llywodraethwyr, Ysgol Glan y Môr, Ffordd Caerdydd, Pwllheli LL53 5NU.

Yn hyn o beth, y mae'r ysgol yn gweithio yn unol â chylchlythyr y Cynulliad "Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion (11/2012) sydd i'w gweld ar - https://beta.llyw.cymru/gweithdrefnau-cwyno-ysgolion-canllawiau

Mae gennych yr hawl i weld y mwyafrif o'r cofnodion a gedwir am eich plentyn ynghyd â llawer o ddogfennaeth y Corff Llywodraethu. Y mae Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae copi ohono ar gael oddi wrth Miss Anwen Bumby, Clerc i'r Llywodraethwyr.

Ysgol uwchradd, gyfun, ddwyieithog, ddyddiol gydaddysgol ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed yw Ysgol Glan y Môr. Mae'n cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd. Nid oes cysylltiad rhwng yr ysgol ag unrhyw enwad crefyddol penodol ond dechreuir pob diwrnod gyda gwasanaeth crefyddol (yn unol â gofynion y Ddeddf Addysg). Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r gwasanaethau hyn- dylid hysbysu'r Pennaeth o hyn drwy lythyr.

Cyfle Cyfartal

Un o amcanion sylfaenol yr ysgol hon yw gwneud yn siŵr fod pob person yn cael ei drin yn gyfartal; cred yr ysgol mewn darparu'r addysg orau i bob disgybl yn ddiwahân. Mae hyn yn golygu polisi pendant o Gyfle Cyfartal - heb gymryd unrhyw sylw o ryw, anabledd, cefndir, crefydd na thras. Os oes pryder nad yw hyn yn cael ei weithredu, dylid cysylltu â'r Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol bolisi ysgrifenedig ar Gydraddoldeb ac y mae llywodraethwr dynodedig yn cymryd diddordeb yn y maes.

Dyma Nodau Cwricwlaidd yr ysgol-

1. Cynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol ar gyfer pob disgybl, heb wahaniaethu ar sail hil, rhyw na gallu.
2. Datblygu cwricwlwm sydd yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, polisïau'r Awdurdod Addysg a pholisïau'r ysgol.
3. Sefydlu trefn fugeiliol addas, i ofalu am les a hapusrwydd pob disgybl a meithrin a chadw golwg ar ei ddatblygiad.
4. Meithrin perthynas agos gyda rhieni a'r gymuned, er lles y disgybl; a datblygu cysylltiadau gyda diwydiannau a masnach leol, addysg bellach ac uwch.
5. Paratoi pob disgybl ar gyfer ei rôl fel oedolyn yn y gymdeithas, drwy roi pwyslais ar rinweddau Cristnogol, ac ar foesoldeb, fel bod pob disgybl yn cael cyfle i ddatblygu'n aelod cyfrifol a llawn o gymdeithas.
6. Annog, a pharatoi, pob disgybl i wneud y defnydd gorau o'i oriau hamdden.

LLYWODRAETHWYR YN CYNNAL CYFARFODYDD GYDA RHIENI

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (adran 94 (13) nid oes yn rhaid i Gyrff Llywodraethwyr yr ysgol gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn i gael cyfarfod y Llywodraethwyr am hyd at 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol. Gellir cael fwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy unai:
Gysylltu â'r ysgol, safle we'r ysgol neu drwy fynd ar safle we'r Cynulliad.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-a-gynhelir-yng-nghymru-ynghylch-y-ddyletswydd-i-gynnal-cyfarfodydd-gyda-rhieni.pdf.

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru nid oes gofyn i ysgolion cyhoeddi data presenoldeb eleni.

Mae'r disgrifiadau cwricwlaidd (pynciau dewisol ac oriau i bob pwnc) sydd yn y llawlyfr hwn wedi eu seilio ar batrwm yr ysgol yn ystod y flwyddyn 2021-22. Mae cynnwys y llawlyfr yma yn gywir ar yr adeg yr aeth i'r wasg.

Nid yw'r ysgol yn cymeradwyo i rieni gymryd eu plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod tymor ysgol. Dylid trefnu cyfarfod gyda'r Pennaeth i drafod unrhyw gais i dynnu plentyn o'r ysgol yn ystod tymor ysgol.

Staff yr Ysgol

Mr Guto Wyn	Pennaeth
Mrs Siwan Ll Roberts	Dirprwy Bennaeth
Miss Llinos W Griffith	Pennaeth Cynorthwyol
Mrs Medi Wyn Edwards	Pennaeth Cynorthwyol
Mrs Melangell T. Gruffydd	Pennaeth Cynorthwyol (dros dro)
Ms Mari Edwards	Pennaeth Daearyddiaeth (rhan amser)
Ms Stephanie Garrod	Mathemateg
Mrs Iona Hughes	Pennaeth Addysg Grefyddol (rhan-amser)
Miss Lisa Mai Hughes	Cydlynydd Cynnydd CA3 a 4, Mathemateg a Gwyddoniaeth a phennaeth blwyddyn 10. (rhan amser)
Mrs M Elena Hughes-Jones	Mathemateg a chyd lynydd rhifedd
Miss Sioned W Huws	Cymraeg a Dyniaethau
Mr Bleddyn Humphreys	Pennaeth Cemeg a chyd lynydd digidol.
Mrs Caryl Jones	Technoleg/Arlwyo/Addysg Grefyddol
Mrs Ffion E Jones	Athrawes Gymraeg a cyd lynydd llythrennedd (rhan amser)
Mr Gerallt B Jones	Technoleg a TGCH
Mr Ifan Dafydd Jones	Athro pynciau cyffredinol (dros –dro)
Miss Kirsty B Jones	Pennaeth Cymraeg
Mrs Nia Ll Jones	Saesneg/ Mathemateg (rhan amser)
Mr T Elwyn Jones	Pennaeth Technoleg
Miss Heidi Littler	Saesneg/Iechyd a Gofal
Mr Elfyn Lloyd	Pennaeth Hanes,
Mrs Einir W Matulla	Pennaeth Saesneg
Mrs Carys Owen	Pennaeth Celf
Miss Ceri Wyn Parry	Pennaeth Ffrangeg a dysgu Saesneg
Mrs Sioned M Parry	Saesneg (rhan amser) a Phennaeth blwyddyn 8
Mrs Bethan Rhisiart	Gwyddoniaeth, Ffiseg (rhan amser)
Mrs Andrea Roberts	Addysg Gorfforol a Phennaeth Blwyddyn 11
Mrs Heather Russell	Saesneg/Iechyd a gofal (dros-dro)
Mr Gareth Thirsk	Pennaeth Addysg Gorfforol; Daearyddiaeth
Mrs Glain Ll Thomas	Cymraeg (rhan amser)
Ms Marie Thomas	Athrawes cynhwysiad/mathemateg/ cyd lynydd rhifedd
Mr Dafydd Jones Williams	Pennaeth Mathemateg
Mr Huw Meilir Williams	Gwyddoniaeth/Bywydeg (rhan amser).
Mr Iwan W Williams	Pennaeth Cerdd a Phennaeth blwyddyn 9
Miss Glenda Buckley	Technegydd - Labordai (rhan - amser)
Miss Anwen Bumby	Rheolwr Busnes
Mrs Carys Moore	Ysgrifenyddes
Mrs Llinos Owen	Swyddog Data / Gweinyddwr Arholiadau (rhan amser)
Mr Tomos Hughes	Rheolwr Systemau Technoleg Gwybodaeth
Mrs Tracey Williams	Techn. Lab. (rhan-amser)
Mrs Karen Hughes	Cymhorthydd Dosbarth
Ms Llinos Hughes	Cymhorthydd Dosbarth (rhan-amser)
Mrs Marian Hughes	Cymhorthydd Dosbarth (rhan amser – dros dro)
Mrs Tania Hughes-Jones	Cymhorthydd Dosbarth
Ms Ceri Ann Jones	Uwch Gymhorthydd Cynhwysiad
Miss Caryl W Jones	Cymhorthydd Dosbarth
Miss Erica Jones	Cymhorthydd Dosbarth
Miss Sian Moore`	Cymhorthydd Dosbarth (dros-dro)
Mrs Alvona Morris	Cymhorthydd Dosbarth
Mrs Jacqueline Parry	Anogwr Dysgu/Busnes,
Miss Hayley Platt	Pencampwr PYD/Anogwr Dysgu/Pennaeth Blwyddyn 7
Mr Dyfed E Pritchard	Cymhorthydd Dosbarth
Miss Sian Alwena Roberts	Cymhorthydd Dosbarth rhan amser dros dro

Mrs Wenna Roberts	Uwch Gymhorthydd
Mrs Caren Rowlands	Uwch Gymhorthydd
Miss Delyth Trenholme	Uwch Gymhorthydd / Cymhorthydd Dosbarth
Mrs Amy Smith	Cymhorthydd Dosbarth (rhan-amser)
Mrs Yvonne Warham	Cymhorthydd Dosbarth (dros-dro)
Mrs Swsan Williams	Cymhorthydd Dosbarth
Mrs Jen Hughes	Uwch lanhawr
Mr Neil Roberts	Gofalwr
Mrs Nicola Williams	Cogyddes

Llywodraethwyr yr Ysgol

Cadeirydd: Dr Richard G Roberts	Rhieni
Is-gadeirydd : Mr Mici Plwm	(Cyngor Gwynedd)
Mrs Ffion G Williams	(Cyngor Gwynedd)
Cynghorydd Hefin Underwood	(Cyngor Gwynedd)
Sedd wag	(Cyngor Gwynedd)
Mrs Andrea Roberts	Athrawon
Mr Bleddyn G Humphreys	Athrawon
Miss Hayley Platt	Staff
Mrs Hayley Williams	Cymunedol
Mrs Carys E Jones	Cymunedol
Mr Steven Love	Cymunedol
Parch Bryn Williams	Cymunedol
Mrs Nia Hughes	Rhieni
Mr Steven Jones	Rhieni
Mrs Ffion Evans	Rhieni
Mr Dyfed Pritchard	Rhieni
Mr Guto Wyn	Pennaeth

Dyma ddatganiad o fwriad Ysgol Glan y Môr-

"Sicrhau addysg o'r safon uchaf bosibl i bob disgybl a'u harwain i ddatblygu yn unigolion cyfrifol, aeddfed a llawn o'n cymdeithas ddwyieithog".

Canlyniadau'r Ysgol

Yn unol a rheoliadau Llywodraeth Cymru nid oes angen cyhoeddi canlyniadau Haf 2021.

Canllawiau Disgyblu

Bwriad yr ysgol yw rhoi pwyslais ar hunanddisgyblaeth ac amlygu hynny yn ei holl weithgareddau.

Ceir rheolau ymddygiad sy'n rhoi'r pwyslais ar ymddygiad cadarnhaol ac adeiladol. Y mae'r drefn ddisgyblu yn sefyll ochr yn ochr â threfn o wobrwyo ymddygiad a gwaith da. Bydd pob athro yn gweinyddu'r drefn wobrwyo/disgyblu yn gyson ac yn gyfartal a disgwylir cefnogaeth rhieni.

1. Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gadw trefn a sicrhau safon dda o ddisgyblaeth yn yr ysgol.
2. Disgwylir i blant ddangos parch at eu hunain, at ei gilydd ac at eiddo ei gilydd, parch at staff ac ymwelwyr a pharch at eiddo'r ysgol. Bydd staff yr ysgol bob amser yn dangos parch at ddisgyblion.
3. Disgwylir i blant fod yn eu gwersi mewn pryd gan ddod â'r pethau angenrheidiol ar gyfer cwblhau eu gwaith efo nhw. Disgwylir iddynt wneud ei gorau.
4. Disgwylir i blant barchu awdurdod yr athro ac ufuddhau i unrhyw orchymyn.
5. Mae bwlio o unrhyw fath yn hollol annerbyniol ac fe ystyrir pob achos yn un difrifol.
6. Bydd athrawon yn ymateb i waith neu ymddygiad da drwy system wobrwyo'r ysgol a byddant yn ymateb i gamymddygiad neu ddiffyg ymdrech drwy'r system ddisgyblu.
7. Gweithredir y system wobrwyo a'r system ddisgyblu yn gyntaf drwy'r pennaeth blwyddyn os yn fater bugeiliol, neu drwy'r pennaeth adran os yn fater academaidd. Gellir hefyd weithredu drwy'r Pennaeth/dirprwyon neu'r athro dosbarth.
8. Gweinyddir y systemau gwobrwyo a disgyblu yn gyson i bob unigolyn ac yn hollol deg.
9. Mae'r ysgol yn cydnabod rôl allweddol rhieni. Rhoddir gwybod i rieni am unrhyw ddirywiad arwyddocaol yn safon gwaith neu yn agwedd eu plant a chysylltir â hwy hefyd os oes unrhyw broblem ddifrifol.
10. Bydd unrhyw gosb yn gymesur â natur y drosedd a rhoddir ystyriaeth i –
    - oedran y disgybl;
    - unrhyw anghenion arbennig sydd gan y disgybl;
    - hanes blaenorol y disgybl yn yr ysgol;
    - amgylchiadau arbennig e.e. sefyllfa'r cartref;
    - pwysau gan eraill;
    - y tebygolrwydd o ail-adrodd;
    - yr effaith ar weddill yr ysgol.
11. Gellir cosbi disgybl drwy roi gwaith ychwanegol iddo/i ei gwblhau neu drwy ei gadw i mewn amser yr egwyl neu amser cinio. Gall y Pennaeth Blwyddyn neu'r Pennaeth hefyd gosbi plentyn drwy ei gadw ar ôl oriau arferol ysgol. Ble y gwneir hynny, rhoddir o leiaf 24 awr o rybudd i rieni.
12. Am gamymddygiad difrifol, gall y Pennaeth (neu yn ei absenoldeb, un o'r dirprwyon) wahardd plentyn o'r ysgol am gyfnod penodol neu yn barhaol. Os yn gwneud hyn, cydymffurfir â chanllawiau'r Awdurdod Addysg a pherchir hawliau cyfreithiol y rhieni.
13. Mae'r ysgol yn cydnabod cyfraniad pwysig asiantaethau allanol i'r broses ddisgyblu e.e. Swyddogion Llês Addysg, Seicolegwyr Addysgol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a chyd-weithir yn agos â hwy.
14. Mae'r Corff Llywodraethu yn dirprwyo'r gwaith o weinyddu'r drefn hon o ddydd i ddydd i'r Tîm Rheoli ond byddant yn monitro gweithrediad y polisi.

Yn unol â gofynion Adran 550A o Ddeddf Addysg 1996 a Chylchlythyr 09/2013 gan Llywodraeth Cymru, y mae'r Ysgol wedi dynodi ei holl staff fel personau awdurdodedig i ddefnyddio 'grym rhesymol' wrth ddefnyddio strategaethau diogelwch plant ac eiddo.

CYTUNDEB CARTREF - YSGOL

ENW _____

Gwnawn ein gorau i :

- Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn cwricwlwm addas ac yn cael ei ymestyn hyd eithaf ei allu.
- Osod gwaith cartref addas a rheolaidd.
- Annog eich plentyn i barchu ei hun ac eraill.
- Sicrhau amgylchedd diogel i'ch plentyn.
- Ddysgu eich plentyn sut i fod yn aelod gwâr o gymdeithas.
- Roi gwybod i chi am gynnydd eich plentyn a chysylltu'n syth os oes problem gyda gwaith, ymddygiad, presenoldeb neu brydlondeb.
- Roi cyngor i'ch plentyn ynglŷn â dewisiadau addysgol a phersonol.
- Ymateb yn brydlon i unrhyw fater yr hoffech ei drafod.

Arwyddwyd: _____
(Ysgol)

Gwnaf fy ngorau i:

- Weithio'n galed yn yr ysgol a chyrraedd fy nhargedau.
- Wneud fy ngwaith cartref a gwaith cwrs yn brydlon ac hyd eithaf fy ngallu.
- Gyflwyno fy ngwaith yn daclus.
- Ddod â'r offer cywir i'r holl wersi.
- Fod yn brydlon.
- Fod yn bresennol a chwblhau gwaith y gallwn fod wedi ei golli.
- Fod yn onest.
- Gadw at holl reolau'r ysgol.
- Wisgo gwisg ysgol.
- Barchu fy hun ac eraill.
- Ofyn am gymorth os oes gennyf broblemau.
- Feddwl yn aeddfed am fy nyfodol, gwrando ar gyngor a gweithredu arno.

Gwnaf/Gwnawn ein gorau i :

- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn gwneud ei waith cartref mewn lle addas ac yn cwblhau gwaith a gollwyd.
- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn dod i'r ysgol ac yn dod ar amser.
- Roi nodyn o eglurhad os yw fy/ein plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol.
- Ddod i'r cyfarfodydd rhieni.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn cael digon o gŵsg.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn parchu rheolau'r ysgol.
- Wneud yn siwr bod gan fy/ein plentyn yr offer cywir.
- Siarad efo fy/ein plentyn am ei fywyd a'i waith yn yr ysgol.
- Ddweud wrth yr ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn ein poeni ac am unrhyw newid gartref a all effeithio ar fy/ein plentyn.

Arwyddwyd: _____
(Disgybl)

Arwyddwyd: _____
(Rhiant)